Natur Ar Eich Stepen Drws

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

# Ydw i wedi darganfod ffosil?

Mae hela ffosilau yn weithgaredd hwyliog y gall yr holl deulu ei fwynhau. Ond nid ffosilau yw'r holl farciau ar gerrig, a dydyn nhw bron byth yn edrych fel yr enghreifftiau perffaith sy'n cael eu gweld mewn amgueddfeydd. Yn aml, dim ond rhan fach o'r ffosil fydd yn y golwg.

AMGUEDDFA CYMRU

003




Gellir sylwi ar ffosilau yn hawdd gan eu bod yn tueddu i ffurfio patrymau rheolaidd neu siapiau mewn cerrig.




Edrychwch am gylchoedd, troellau, llinellau crwm, neu smotiau. Dim ond rhan fach o'r ffosil cyfan sydd i'w weld fel arfer.



Mae gan rai cerrig batrymau sydd ddim yn ffosilau ond yn dangos lle mae'r cerrig wedi hollti neu lle mae mwynau wedi tyfu.



Mae rhai cerrig wedi'u gorchuddio â thyllau bach. Tyllau gan sbyngau neu gregyn deufalf yw'r rhain.



Ychydig iawn, iawn o gerrig crwn llyfn sydd yn wyau deinosor. Yn hytrach, cerrig bach crwn ydyn nhw, neu 'garegiadau' lle cafodd cerrig eu ffurfio mewn lympiau.



Mae cafnau mewn cerrig weithiau yn edrych fel olion traed, ond mannau lle mae'r garreg wedi treulio ydyn nhw fel arfer. Mae olion traed yn brin iawn.




Peidiwch ceisio morthwylio unrhyw ffosilau sydd mewn carreg solet gan y byddwch yn eu niweidio - felly tynnwch lun.



Am help i adnabod eich ffosil, anfonwch luniau da atom ni gyda beiro neu ddarn o arian i ni allu gweld eu maint.



Cofiwch ddweud ble cafodd pob ffosil ei ganfod. Cadwch lyfr nodiadau a labeli pob ffosil.